**Nodyn o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar PCS a'r cyfarfod busnes a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2018**

Yn bresennol: Julie Morgan AC (Cadeirydd); Mike Hedges AC; Rhianon Passmore AC; Helen West (Staff Cymorth Aelod Cynulliad); Georgina Smith (Staff Cymorth Aelod Cynulliad); Emlyn Pratt (Staff Cymorth Aelod Cynulliad); Shavanah Taj (PCS); Marianne Owens (PCS); Darren Williams (PCS).

Ymddiheuriadau: Kirsty Williams AC.

1. **Busnes y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**
   a. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd: Cytunwyd i ailethol Julie Morgan yn Gadeirydd ac i ailethol Bethan Sayed yn Is-Gadeirydd (cyhyd ag y byddai'n cadarnhau ei bod yn barod i barhau yn y swydd).
   b. Adroddiad blynyddol: Trafodwyd gwaith y Grŵp Trawsbleidiol dros y deuddeg mis blaenorol gan dynnu sylw at eitemau allweddol i'w cynnwys yn yr adroddiad blynyddol.
   c. Cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf: trafodwyd y blaenoriaethau ymgyrchu ar gyfer y flwyddyn nesaf, ynghyd â syniadau i annog rhagor o Aelodau'r Cynulliad i ddod i gyfarfodydd y Grŵp.

2. **Y wybodaeth ddiweddaraf am ymgyrch genedlaethol PCS i godi cyflogau**
   Y bleidlais genedlaethol ynghylch cyflogau a gynhaliodd y PCS ym mis Mehefin a mis Gorffennaf oedd pleidlais ganrannol statudol fwyaf yn hanes yr undeb ond ni lwyddwyd i gyrraedd y trothwy o 50% sy'n ofynnol yn ôl Deddf 2016. Roedd yr undeb yn awr yn paratoi ac yn trefnu ymgyrch gyflogau 2019, a'r nod yw cynnal pleidlais ddiwydiannol arall yn y gwanwyn. Yn y cyfamser, roedd trafodaethau ynghylch cyflogau'n parhau gyda chyflogwyr amrywiol yn y gwasanaeth sifil, ac roedd nifer ohonynt yn ceisio cyflwyno "rhaglenni moderneiddio niwtral o ran cost". Yng Nghymru, roedd y PCS yn ceisio cysoni cyflogau ar draws y sector ddatganoledig a threfnwyd i'w swyddogion gwrdd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i drafod hyn.

3. **Y cyhoeddiad i gau'r Swyddfa Brisio**
   Cyhoeddwyd penderfyniad i gau Swyddfa Brisio'r Rhyl yn ddiweddar a disgwylir i hyn ddigwydd ym mis Hydref 2019. Ni fyddai'r staff dan sylw'n cael cyfle i symud i safle arall, oherwydd bod y safleoedd eraill yn rhy bell, oherwydd cynlluniau i gau swyddfeydd eraill ac oherwydd arbenigedd swyddogaethau. Disgwylir i swyddfa lai ym Mangor gau hefyd ond ni chyhoeddwyd dyddiad yn y cyswllt hwn ac roedd swyddfa Caerfyrddin hefyd yn cau'r un pryd â'r Rhyl, ond disgwylir i staff o'r swyddfa honno symud i Abertawe. Roedd Chris Ruane, yr AS lleol ac Ann Jones, yr AC lleol, wedi bod yn rhan o'r ymgyrch i achub swyddfa'r Rhyl ac roedd yr undeb yn deall bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi swm sylweddol o arian yn y safle ac, oherwydd hynny, mae'n bosibl y bydd ganddi rywfaint o ddylanwad o ran ceisio achub y swyddfa. Yn y Rhyl roedd gwasanaeth Cymraeg yr Asiantaeth yn cael ei ddarparu ac roedd unrhyw fygythiad posibl i'r gwasanaeth hwn yn debygol o greu anniddigrwydd mawr.

   Cam i'w gymryd: (1) Aelodau'r Cynulliad i gydweithio ag Ann Jones a cheisio penderfynu sut y gallai Llywodraeth Cymru ddwyn pwysau ar yr Asiantaeth y Swyddfa Brisio i beidio â chau'r safle yn y Rhyl; (2) Aelodau'r Cynulliad i gyflwyno sylwadau i'r Asiantaeth, drwy Weinidogion Cymru.

4. **Y wybodaeth ddiweddaraf am gau swyddfeydd yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau EM a Llywodraeth Cymru**
   Rhoddodd PCS y wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau i gau swyddfeydd yr oedd wedi eu trafod â'r Grŵp yn flaenorol. Byddai swyddfa CThEM newydd yn agor yng nghanol Caerdydd yn 2020/21; roedd cyfarfodydd un-i-un yn cael eu cynnal gyda staff Abertawe i weld faint ohonynt fyddai'n gallu symud i Gaerdydd; byddai nifer y diswyddiadau tebygol yn dod yn fwy amlwg ar ôl cwblhau'r broses hon. Byddai proses debyg yn digwydd gyda staff Wrecsam a'r posibilrwydd iddynt symud i Lerpwl, ond roedd hynny'n debygol o gymryd mwy o amser. Nodwyd y goblygiadau amgylcheddol a oedd ynghlwm wrth y siwrneiau hirach y byddai llawer o'r staff yn eu hwynebu. O ran cau swyddfa'r

Adran Gwaith a Phensiynau yn Ne Cymru, cafwyd caniatâd cynllunio erbyn hyn i godi'r ganolfan newydd yn Nhrefforest. Yn Llywodraeth Cymru, roedd pryderon ynghylch dyfodol y swyddfeydd yn Nantgarw a Threfforest ond ni fyddai penderfyniad yn cael ei wneud nes bydd Prif Weinidog newydd wedi'i benodi.

5. **Preifateiddio Gwasanaeth Diogelwch CThEM**

Y diwrnod cynt, roedd CThEM wedi cyhoeddi na fyddai'n caniatáu cais mewnol i ddarparu gwasanaeth diogelwch yn y dyfodol ar nifer o safleoedd arbenigol, gan gynnwys Llanisien yng Nghaerdydd. Roedd 21 o swyddogion diogelwch ar y safle ac nid oedd unrhyw sicrwydd y byddent yn cael eu diogelu o dan reoliadau TUPE; yn ogystal â hyn, roedd y swyddogion diogelwch ar raddfa AA, a gafodd ei dileu gan CThEM. Roedd Llanisien hefyd wedi'i dynodi'n safle 'risg uchel', sy'n ymdrin â data sensitif. Roedd yr undeb yn herio'r penderfyniad ac yn croesawu cefnogaeth gan Aelodau'r Cynulliad.

Cam i'w gymryd: Aelodau'r Cynulliad i godi'r mater hwn yn ystod Cwestiynau Busnes.

6. **Rhaglen Diwygio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder**

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (sef yr elfen fwyaf o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder) yn ceisio cyflwyno 'rhaglen ddiwygio' erbyn 2021 a fyddai'n digideiddio'i waith, yn lleihau nifer y diwrnodau y bydd llys yn eitedd ac yn cyflwyno system technoleg gwybodaeth gyffredin. Roedd y rhaglen hon yn debygol o arwain at haneru nifer y staff sy'n gweithio i'r Gwasanaeth, sef 17,000 (gan gynnwys 800 yng Nghymru), a byddai'r rhan fwyaf o'r staff a fyddai'n parhau yn eu swyddi'n symud i ganolfannau cyswllt newydd, y tu allan i'r trefi, ac roedd yn debygol mai dim ond un fyddai yng Nghymru. Byddai llawer o lysoedd yn cau a dim ond staff sgerbwd fyddai yn y rheini. Roedd yr undeb yn pryderu am y goblygiadau i'r staff ac am y gallu i fanteisio ar y system gyfiawnder.

Cam i'w gymryd: PCS i gael rhagor o fanylion am y rhaglen, yn enwedig mewn perthynas â Chymru, ac adrodd yn ôl i Aelodau'r Cynulliad.

7. **Anghydfod tâl posibl yn Chwaraeon Cymru**

Roedd y trafodaethau ar y mater hwn wedi cyrraedd cyfnod sensitif ac nid oedd PCS mewn sefyllfa ar hyn o bryd i roi manylion.

8. **Unrhyw Fater Arall**

Mewn perthynas â'r cwestiynau am Arvato (darparwr cydwasanaeth yr Adran Drafnidiaeth) a godwyd yn y cyfarfod blaenorol, roedd Mike Hedges wedi holi Ken Skates ynglŷn â hyn ac wedi cael ateb yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig cefnogaeth ariannol i'r cwmni i'w helpu i gyflwyno swyddi newydd yn Abertawe, ond nid oedd wedi ymateb i'r cynnig hwn eto. Cadarnhaodd Mike ei fod wedi ysgrifennu eto i geisio esboniad manylach ond nid oedd wedi cael ateb i'w lythyr eto.